Wg35.5.28

# GALAR GAN

Ar ol y diweddar

## BARCH. SHADRAC DAVIES,

Gweinidog Duw gynt yn y Maendy,

YR HWN A FU FARW

YN NGHAEREFROG NEWYDD, ar y 15fed o FAI, 1836,

*Yn 58 ain Oed, a'r 31 ain o'i Weinidogaeth:*

A gyfansoddwyd mewn hiraeth,

## GAN EVAN JENKINS,

**Llanharran,**

UN O'I HEN AELODAU.

Efe (fel Saer Maen) a adeiladodd Gapel y Maendy; efe a'i rhyddhaodd o'i ddyled; ac efe oedd y Gweinidog cyntaf a urddwyd yn y lle.

Dwylaw Zorobabel a sylfaenasant y ty hwn, a'i ddwylaw ef a'i gorphenodd—Zech. iv. 9.

CAERDYDD:

ARGRAFFWYD GAN WILLIAM BIRD.

1838.

X2053082243

# GALAR GAN.

1. CEFAIS newydd o'r Gorllewin,
Effieithiodd arna i'n fawr,
Fod SHADRAC DAVIES wedi huno,
Ai rhoi mewn amdo'n llwch y llawr;
Bu'n ddefnyddiol am flynyddau
Yr ochr hyn i'r ehang fôr,
Draw machludodd haul ei fywyd,
Adreu hedodd at y côr.

2. HOWEL POWEL a gorffolodd
Y gangen hon o eglwys Dduw,
Nis anghofir llafur hwnw
Tra bo un o'i blant yn fyw;
Gwr defnyddiol, o ddoniau buddiol,
I gyhoeddi efengyl gras,
Aeth oddi yma gan rhagluniaeth,
Dros y cenfor garw glas.

3. Chwech ar hugan o rhifedi
Oedd y gangen fechan hon,
A PHOWEL ddewr 'n eu blaenori,
Ac heb ei foddi gan y dòn;
SHADRAC DAVIES oedd y nesaf
Urddwyd, godwyd ar y mur,
Fe ddangosai'n ddigon eglur,
Fyrdra pob peth ond y gwir.

4. Fe'i tueddwyd yn foreuol
I rhoddi ysgwydd dan yr arch;
Milwr gwrol o ddawn rhagorol,
I'r efengyl rhoddai barch;
Bu'n y Maendŷ a Llanharry,
Yn athrawiaethu o bryd i bryd,
Yn datgan gwaed yr Oen a laddwyd,
Barn yn bod, a diwedd byd.

5. Gwr o urddas ddoniau addas,
O hyn mae llawer iawn yn dyst,
I gyhoeddi'r iachawdwriaeth,
Anchwiliadwy olud Crist;
Argraffiadau y gwirioneddau,
A'u effeithiau 'nawr sy'n bod,
Yn y Maendŷ a Llanharry,
I'r Iesu'n unig y byddo'r clod.

6. Yr ydoedd yma yn boblogaidd,
Aent yn lluoedd ar ei ol,
Ysbryd tanllyd llawn o fywyd,
Yr hyn gyfrifa rhai yn ffol;
A'r Genadwri yn diferi,
Y dorf yn toddi, hyfryd yw;
A'r Ysbryd Glân yn nerthol weithio,
Nes cenhedlu plant i Dduw.

7. Dangos Iesu yn Waredwr,
Oedd ei amcan pena' fe,
Yn ei wisgoedd offeiriadol,
A derbyn o'i gyflawnder E;
Tynu dyn oddiarno ei hunan,
I wel'd ei gyflwr gwael ei hun,
A pheidio ymddiried îs y nefoedd,
I opiniynau gweigion dyn.

8. At y Gair, y wir dystiolaeth,
Sy'n eglur ddangos beth yw dyn,
Yn ei gwymp a'i godiad hefyd,
Gwelir Duw a'i enw'n un ;
Fe ganmolai'r Bereaid hyny,
Na chredai ddim heb chwilio'r Gair,
A oedd y peth yn dal perthynas
A'r Gwr fu gynt ar luniau Mair.

9. Seren fawr o'n gwydd ymguddiodd,
Llusern oleu yn ei ddydd,
Dywedai'n enwog a godidog
Am werthfawrogrwydd gras o ffydd ;
Derbynwyr ydyw pawb o'r teulu
Oddiar y drugareddfa rhâd,
Ac wedi profi'n effieithiol,
Wir rhinweddau'r dwyfol waed.

10. Er cael doniau De a Gogledd,
A Gorllewin faith yn un,
Does ond yr Ysprydd Glân yn unig
Ddichon argyhoeddi dyn ;
Eitha' Paul, mae'n wir, oedd planu ;
Ag Apolos, dwfrhau ;
Duw yn unig all rhoi'r cynnydd,
Efe yw'r ffynnon fawr ddidrai.

11. Efe ddywedai am blant Sarah,
Mae iddynt hwy perthynai'r fraint,
A phlant Agar a'u i gaethiwed,
Heb brofi dim o wledd y Saint ;
Mae gelyniaeth byth yn para,
Rhwng Cnawd ag Ysprydd yn ddiball ;
Fel y rhai'nu yngrhoth Rebecca,
Yn cilgwthio naill y llall.

12. Efe flodeuodd yn rhyfeddol,
Draw yn nhir machludiad haul;
Bu'n llafurus a llwyddianus,
I ddangos tegwch Adda'r ail;
Iesu yn ei aberth iawnol,
Ydoedd testyn dyddiau'i oes;
Ag iddo orphen iechydwriaeth,
Y gwaredigion ar y groes.

13. Ca'dd ei godi i ben Pisca,
Nes gwel'd yr hyfryd dir o bell,
Cyfrifai farw'n fwy o elw,
Gael morio i'r ardaloedd gwell;
Ca'dd adferiad lwyr o'i ieuenctid,
Gyda chrefydd bachgen Mair;
Dyna oedd ei fwyd a'i ddiod,
Addewidion mawr y gair.

14. Yr oedd yn fawr o dan y Pwlpit,
Yn egwyddori y gweinion ŵyn;
Cydymdeimlai a'r mamogiaid,
Pan adroddent hwy eu cwyn;
Dangosai Iesu, Craig yr oesoedd,
Oddiarni byth yr un ni syrth,
A bwyso arni o egwyddor,
Nes cyrraedd tre Caersalem byrth.

15. Yn ei gorph y dioddefodd
Gystudd mawr, y dwfr glwy;
Yr hyn sydd farwol yn ei natur,
Angau a'i symudodd trwy;
Gwell oedd ganddo gael ymddattod,
A gado i nol y tŷ o glai,
Gael coroni y gwr a hoeliwyd,
Gyda'r ailenedig rhai.

16. Draw yn mhellder tir Americ,
Mae'i gorph yn gorwedd yn y bedd,
O fewn i dref Gaerefrog Newydd,
Nes codo ar ei newid wedd ;
Efengylu oedd ei bleser,
Pan yma oedd ar y dir y byw,
Bod y Ceidwad yn ddigonol
I heddychu dyn a Duw.

17. Gwaredigaeth fydd ddiwedda'
I holl etifeddion ffydd,
Sicr drugareddau Dafydd,
Bywyd o'i meddiannu sydd ;
Myn'd wyf finnau i rhosydd Moab,
Rhaid yw treio grym y dwr,
Nid heb obaith cael cyfarfod
Iesu mawr yn flaena' gwr.

18. Mae cyfryngau'r iechydwriaeth
Yn cael eu hestyn yn barhaus,
Rhai'n cael modd o fodd eu calon,
I ufuddhau i'r hyfryd lais :
Mae'r Gwiliedyddion ar y muriau,
Yn disgwyl toriad gwawr o hyd,
A'r tywalltiadau mawr i ddisgyn,
Nes gwneud trefn ar y byd.

19. Pan esgoro addewid Joel
Ar ei dylanwadau mawr,
A genedigion teulu Sïon,
Fel y gwlith o groth y wawr ;
Tân efengyl 'n torri allan,
I mewn i goedwig wyllt y byd,
Nes gwneud i'r mudan lefaru,
Fu flynyddau'n ddigon mud.

20. O Iesu ffynonellodd bywyd,
A iachawdwriaeth damniol ddyn,
Mae ynddo drysor fel y cenfor,
I'w gyfrannu yn ddibryn ;
Etifeddiaeth anllygredig,
A bwrcasodd brenhin hedd,
Corph ag enaid ar ei ddelw,
'Nol dod i'r lan o byrth y bedd.

21. Bydd cynnulliad pobloedd lawer,
At y Silo mawr cyn hir,
Hwy ddont i'r lan yn llu banerog,
I etifeddu'r hyfryd dir ;
Effaith cariad cyn y bryniau,
A chyfammod cyn bod byd,
O fewu i'r enfys gadwedigol,
Mae etifeddion gras i gyd.

22. Aiff gwybodaeth iechydwriaeth,
Mewn modd helaeth dros y byd,
Daw'r Iuddewon angrhediniol,
I gredu yn yr aberth drud ;
Mae'r addewid fawr o'u himpiad,
Caiff sylwedd Dafydd fod yn ben ;
A'r gorchydd mawr i gael ei ddifa,
Pryd hyn y gwelant heb un llen.

23. Gwreiddyn Dafydd, nefol Lywydd,
Mae gyda'r fyddin ar y maes,
Fe deyrnasa mewn cyfiawnder,
Yngoludoedd mawr ei ras ;
A'r Iuddewon a Chenhedloedd,
Wedi eu cludo o faes y byd,
Gwel ynghyd ei hâd ysprydol,
Heb un ar goll o'r teulu gyd.

24. Llosgi wnelo'r Genadwri,
Holl ddychymmygion gweigion dyn,
Muriau Babel fawr sy'n crynu,
Fe'i datsylfaenai bob yr un :
Bydd cychwyniad yn y gwersyll,
Udgorn Brenhin yn ein plith,
Teyrnas angrhist wedi dryllio,
Am holl oesoedd rhif y gwlith.

Fe welir yr Eglwys a'u gwisgoedd yn hardd,
Yn uwch eu sefyllfa nag Adda yn'r ardd ;
Heb arni frycheuyn, na chrychni, na phoen,
Yn gyflawn a'r ddelw sancteiddiol yr Oen.

Rhyfeddol yw'r Enw, a chadarn yw'r Gwr,
Sy'n gyflawn waredwr, achubwr, a thwr ;
Mewn arfaeth dragywyddol fe garodd yn rhad,
Dihangol fydd Sïon dan arwydd y gwaed.

*W. Bird, Argraffydd, Caerdydd.*